

PRIFFYRDD, CYMRU

2010 Rhif 51

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (YR A487) GWELLIANT ABERARTH) 2010

DEDDF PRIFFYRDD 1980 a DEDDF CAFFAEL TIR 1981

Gwnaed 26 Tachwedd 2010

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (1) ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi(2), a phob pŵer galluogi arall(3), drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion:
 - (a) gwella Cefnffordd Abergwaun i Fangor yng Nghymuned Aberarth yn Sir Geredigion;
 - (b) gwella priffyrdd eraill yn y Gymuned a'r Sir honno.
 - (c) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad â'r gwelliannau i briffyrdd eraill a grybwyllir uchod; ac
 - (ch) defnydd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwelliannau o'r fath i briffyrdd ac â gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod.
2. (1) Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ar y map y paratowyd dau gopi ohono, sydd wedi ei selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio 'Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Bangor i Abergwaun (yr A487) (Gwelliant Aberarth) 2010'

(2) Caiff yr hawliau newydd dros dir fydd yn cael eu prynu'n orfodol dan y Gorchymyn hwn eu disgrifio yn yr Atodlen a dangosir y tir mewn lliw glas ag ymyl goch ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith a godir ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 o fetrau, p'un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y map" ("*the map*") yw'r map sydd wedi'i farcio 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) Gwelliant Aberarth) 2010' ac a lofnodwyd gan swyddog o'r awdurdod caffael a'i selio â sêl yr awdurdod caffael a'i adneuo yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gwasanaeth Recordiau, Parc Cathays, Caerdydd;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487).

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) Gwelliant Aberarth) 2010.

Dilysir SÊL GORFFORAETHOL GWEINIDOGION
CYMRU a osodir yma gan

Llofnodwyd gan swyddog o Lywodraeth Cynulliad
Cymru o dan awdurdod Gweinidogion Cymru.

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-Adran Cynllunio a
Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dyddiedig y 26 Tachwedd 2010

- (1) 1980 p.66
- (2) 1981 p.67
- (3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a
pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006,
mae'r pwerau hyn bellach wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru o
ran Cymru.